



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Cofnodion Cyfarfod
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
14 Ebrill 2023
10:00 am – 12:00 pm
dros Zoom

Yn bresennol:	Y Cyng. Dilwyn Morgan (Cadeirydd), Alwyn Jones, Ann Woods, Catrin Roberts, y Cyng. Christine Jones, y Cyng. Alun Roberts, y Cyng. John Pritchard, Dylan Owen, Ffion Johnstone, Fôn Roberts, Jenny Williams, Meinir Williams-Jones, Michelle Greene, Rhun ap Iarll, Roger Seddon, Rhiain Morlle (ar ran Nicola Stubbins), Sian E Tomos, Teresa Owen
Ymddiheuriaid:	Alwyn Williams; Dave Hughes; Dr Lowri Brown; Estelle Hitchon; Gill Harris; Karen Higgins; Liz Grieve; Nicola Stubbins.
Hefyd yn bresennol:	Steve Grayston, BIPBC (eitem 3) Nesta McCluskey, BIPBC (eitem 3) Carys Norgain; BIPBC (eitem 3) Claire Waddicor-Evans, (eitem 6)

Eitem		Camau Gweithredu
1	<p>Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</p> <p>Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd eto i MW a gobeithiai barhau â'r gwaith gwych a gychwynwyd gan Mary i ddatblygu a chryfhau'r Bwrdd. Roedd y Cadeirydd yn awyddus i atgoffa'r aelodau mai'r un peth pwysig fel Bwrdd yw dealltwriaeth glir o'r pwrpas a'i swyddogaeth.</p> <p>Yn y dyfodol, roedd angen i ni fel Aelodau ymgysylltu â gwaith y Bwrdd; ein partneriaid ac, yn fwy fyth, ymgysylltu rhagor â'r bobl rydym ni'n eu cynrychioli. Gallai hyn olygu symleiddio adroddiadau, ynghyd â defnyddio iaith hawdd i bawb ei deall. Croesawodd y Cadeirydd unrhyw Aelod i gysylltu ag o, un ai'n uniongyrchol neu drwy'r Tîm Cefnogi Busnes gydag unrhyw syniadau / awgrymiadau eraill.</p>	
2.	<p>Cynllun Cyfalaf Strategol Rhanbarthol 10 Mlynedd</p> <p>Eglurodd y Cadeirydd nad oedd y cyflwyniad ar y Cynllun Cyfalaf Strategol yn barod i'w rannu gyda'r Bwrdd, felly penderfynwyd ei ohirio tan gyfarfod mis Mai.</p>	
3.	<p>Cynnig am Gyllid Partneriaethau Perthynol i Iechyd (AHP) gan LIC</p>	

Rhoddodd SG gefndir i AHP gan ddweud wrth y Bwrdd bod cyllid wedi'i ryddhau gan Eluned Morgan, yn dilyn llythyr ym mis Chwefror i'r Byrddau Iechyd i gefnogi adnoddau ychwanegol ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yng Nghymru. Roedd gwerth £5 miliwn o gyllid i Gymru gyfan a chyfran GC tua £963,000 – wedi'i rannu yn 3 rhan yn fras. Yn y llythyr, roedd yr amodau'n dweud bod yr arian i gael ei wario yn bennaf ar ofal ataliol yn y gymuned er mwyn i bobl aros yn iach ac yn annibynnol, a phlethu ynghyd â chynlluniau oedd eisoes yn bodoli er mwyn cyd-fynd â thimau adnoddau cymunedol, Gartref yn Gyntaf, mentrau aros yn iach yn gysylltiedig â chefnogi gofal camu-i-mewn camu-yn-ôl, atal mynd i'r ysbyty, cyflymu rhyddhau'n ddiogel, cefnogaeth yn y cartref a chanolfannau adfer.

Mae'r manau cychwyn ychydig yn wahanol o ran ein sefyllfa ag adnoddau i'r timau cymunedol o gyllid y Gronfa Integredig Ranbarthol, felly cynigion ychydig yn wahanol, ond i gyd yn ymwneud â phobl fregus yn y gymuned, sy'n flaenoriaeth allweddol dan y fenter Ymhellach Ynghynt.

Y trefniadau llywodraethu ar gyfer hyn yw bod angen iddo gael ei gefnogi gan y BPRh, mae eisoes wedi bod gerbron y Grŵp Arwain ac mae'n rhaid iddo gyrraedd LIC erbyn 3 Mai fan bellaf, ac yn gynt os yw'r cyfan wedi'i gytuno.

Wrth gloi, soniodd SG eto am y grŵp llywodraethu wrth y BPRh ond roedd y llwybr llywodraethu'n mynd drwy'r cyd-glystyrau yn gyntaf ac yna'r BPRh – ond gan nad oedd cyfarfodydd cyd-glystyrau wedi'u trefnu ac ar waith, y llwybr oedd y Grŵp Arwain ac yna'r BPRh. Ystyriol o nifer y swyddi a recriwtio, felly ymwybodol y bydd llithriant yn y flwyddyn ariannol hon – ambell gynnig ynghlwm â llithriant fel y soniwyd yn y Canol. Ystyried pennu rhywun i sefydlu Cydweithredfa AHP i fod o dan y cyd-glystyrau. Mae cyllid wedi'i neilltuo a bydd elfennau eraill o lithriant yn cael eu hadolygu, a'u hadolygu'n barhaus drwy gydol y flwyddyn. Bydd y prosesau adrodd i LIC drwy Gyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd, Gareth Evans, y Cyfarwyddwr Gweithredol. Adroddiad diweddar ar gynnydd a chanlyniadau i gael eu bwydo'n ôl i'r BPRh yn nes ymlaen yn y flwyddyn, ac i LIC.

Diolchodd y Cadeirydd i DG; CN a NMCK am eu cyflwyniad cynhwysfawr, llawn gwybodaeth.

Mynegodd RS ei bryder mewn perthynas â'r cyllid rheolaidd ynghlwm â llythyr y Gweinidog. Dau fater a fydd yn effeithio ar lwyddiant y cynigion. Gan gyfeirio'n ôl at ddau gyfarfod diwethaf BIPBC, roedd 2 bapur wedi dod ger bron, sef Papur Datblygu'r Cynllun Blyneddol a'r Cynllun Ariannol cychwynnol – mae'r rhain yn berthnasol gan fod y cynigion hyn i gyd-fynd â'r ddarpariaeth gymunedol bresennol. Roedd y Cynlluniau Ariannol yn amlinellu manylion i gael eu cymeradwyo ym mis Mehefin – manylion o'r targedau arbedion o fewn ffigyrau AHP a dadfuddsoddi. Dywedodd RS fod y cynigion yn rhai da a'u bod yn ychwanegu at y cynnig i'n pobl, ond a fydd y proffil darparu gwasanaethau'n parhau ar ôl i ni glywed beth fydd y toriadau? A fydd cyllid ar gael i ymgymryd â'r gwaith da a fydd yn cael ei wneud gan AHP?

Mae angen yr adroddiad AHP erbyn 3 Mai, ond nid yw penderfyniadau BIPBC i gael eu gwneud tan fis Mehefin, sy'n ffactor mawr yn y modd rydym ni'n arfarnu'r prosiectau hyn. Yn ogystal, roedd llythyr y Gweinidog yn sôn am y berthynas rhwng BPRh a grwpiau cynllunio cyd-glystyrau – roedd RS yn pryderu am ein perthynas bresennol â grwpiau cyd-glystyrau, gan nodi nad oes unrhyw beth wedi'i weld ers cyfarfod y Bwrdd Iechyd ym mis Hydref 2022 ar gynnydd yr adnodd

cynllunio i glystyrau. Holodd RS beth oedd y sefyllfa gan fod gofyn i ni drafod yn uniongyrchol â'r cyd-glystyrau, a gan ein bod i fod yn sianel i gynigion, mae angen i ni wybod llawer mwy am grwpiau cynllunio a'u gwaith.

Dyweddodd SG nad oedd y grwpiau cyd-glystyrau wedi'u sefydlu eto felly nid oes perthynas i'w meithrin a bod hynny ar y gweill, ond ei fod yn cymryd mwy na'r disgwyl. Nodwyd hefyd nad BIPBC oedd yr unig Fwrdd Iechyd yn y sefyllfa honno ar hyn o bryd. Bydd yn digwydd a bydd y perthnasoedd hynny yn datblygu.

Atebodd SG y cwestiwn ynghlwm â chyllid drwy ddweud fod y senario bob blwyddyn yn un od pan mae buddsoddiad newydd yn dod h.y. bod rhywfaint o arian newydd a'r hen arian yn mynd – er mwyn gwneud arbedion effeithlonrwydd costau a chynlluniau gwella costau. Cadarnhaodd ei bod yn broses flynyddol. Gyda'r arian hwn, gwyddwn ei fod yn gylchol a'i bod yn rhaid ei wario mewn meysydd penodol a gan ei bod yn rhaid i ni ddangos canlyniadau a gwelliant drwy adroddiadau a thystiolaeth i'w darparu, nid oes modd mynd â'r cyllid oddi arnom.

Holodd AR a oedd yn benderfyniad i recriwtio staff newydd neu recriwtio'n fewnol. Os oedd gweithwyr yn symud swyddi yn fewnol, pryderai y byddai'n creu swyddi gwag yn adrannau eraill y gwasanaeth. Gofynnodd AR i CN sut, yn y Gorllewin, gyda'r prosiect 1af, y byddai'r recriwtiaid newydd yn plethu ynghyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau'r cynnig heb y gofalwyr yn y gymuned i fod y llwyddiant mae'n haeddu bod.

Atebodd SG: yn anochel, lle mae swyddi newydd, mae elfen o ddi-ddordeb mewnol mwyaf sydyn. Amlinellodd Eluned Morgan yn y llythyr ei fod i ddatblygu'r rhaglen israddedig ar gyfer Therapi Galwedigaethol; ffisiotherapi ar raglen ôl-raddedig. Mae modd dod â phobl i mewn fel graddedigion i lenwi bylchau fel yn y gorffennol. Yn gyffredinol, mae gor-recriwtio i'r swyddi hyn bob blwyddyn er mwyn ymateb i heriau recriwtio. Gweithio'n galed i ddenu pobl tu allan i Ogledd Cymru – gweithio gyda chydweithiwr Gweithlu ar ymgyrch recriwtio ehangach ar gyfer therapyddion yn gobeithio denu unigolion newydd.

Ychwanegodd CN fod angen i ni weithio'n agos gyda thimau Gwaith Cymdeithasol lleol i'r cynigion hyn lwyddo. Roedd DO a CN i gyfarfod i drafod y papur a'r cynnig. O ran cydweithio, roedd llawer o unigolion o wahanol asiantaethau'n gofalu am gleifion yn y gymuned a phrif ffocws hyn yw'r Tîm Adnoddau Cymunedol. Cadarnhaodd CN fod y staff yn cydweithio'n agos i gefnogi a gofalu am gleifion yn ddyddiol. Mae CN yn credu y bydd y tair swydd yn y ddogfen yn dod â phawb ynghyd o'r gwasanaethau cymunedol – Byrddau Iechyd ac Allau yn ogystal â'r trydydd sector. Po fwyaf cymhleth yw'r claf neu'r cleient, po fwyaf o ofalwyr sydd eu hangen, felly mae'n hollbwysig dod â phopeth ynghyd.

Ychwanegodd NMCK, drwy gydol cyfnod datblygu'r cynigion, fod swyddi gwag wedi'u hystyried rhag creu mwy o broblemau trwy greu swyddi nad oes modd eu llenwi. Dyna pam na ychwanegwyd Therapi Lleferydd i un o'r cynigion - gan y byddai'n tynnu ymgeiswyr mewnol oddi wrth wasanaethau oedd eisoes yn ei chael yn anodd. Wrth ddatblygu'r cynigion ger bron heddiw, meddylwyd am lawer mwy o syniadau, ond roedd recriwtio yn un o'r prif ffactorau i sicrhau bod gwasanaethau presennol yn parhau i fodoli.

Croesawai DW y syniadau a'r buddsoddiad ac ar ran Cyngor Gwynedd roedd yn falch iawn bod hyn am ddigwydd a bod LIC wedi darparu cyllid. Yng nghyfarfod diweddar y Grŵp Arwain, eglurodd DO nad oedd unrhyw drafodaeth wedi bod â

	<p>swyddogion o Wasanaethau Cymdeithasol yr ALL hyd yma, felly ni allai gefnogi a byddai'n ymatal heb i drafodaethau gael eu cynnal gyda'r Tîm Adnoddau Cymunedol a Thîm Gwasanaethau Cymdeithasol yr ALL.</p> <p>Ymatebodd CN i ddweud mai'r gobaith fu cynnal cyfarfod rhwng Môn a Gwynedd, ond na fu hynny'n bosib' oherwydd gwyliau. Roedd Bethan a Ffion i gysylltu â FR a DO i drafod ymhellach yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 17/4.</p> <p>Roedd LR yn cytuno â DO ynglŷn â thrafodaethau sydd heb eu cynnal â Gofal Cymdeithasol. Cytunai, er ei fod yn brosiect cyffrous, fod angen pwylllo a byddai eisiau i'r BPRh gadw golwg fanwl ar hyn o safbwynt llywodraethu.</p> <p>Dywedodd MW ei fod yn gyfle i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol a bod y cynnig hwn yn amlygu hynny, fel enghraifft y prosiectau'n cefnogi cartrefi nyrsio a fabwysiadwyd o Ben-y-bont ar Ogwr. Hefyd, ddim yn ymwybodol o unrhyw ymgysylltu nac ymgynghori â'r sector ynghylch a fyddent yn ei weld yn ddefnyddiol a'r ffordd orau o symud ymlaen. Pawb yn ymwybodol bod y sector gofal dan bwysau aruthrol, ymgysylltu'n ehangach am gyllid AHP a sut fyddai modd ymgysylltu â'r sector a beth fyddai'r flaenoriaeth fwyaf.</p> <p>Soniodd RS am gynnig y Gorllewin am well darpariaeth i gartrefi nyrsio ynghlwm â rheoli llyncu a meddyginiaeth. Fel gofalwyr sy'n ymdrin â dysffagia a'i effaith ar y sawl sy'n gofalu am gleifion – a fyddai modd ystyried hyfforddiant neu ymestyn y gwasanaeth i'r unigolion hyn gan mai carfan cymharol fechan yw hi a chyflwr sy'n gwneud pobl yn llesg. Ymwybodol ei fod yn ddibynnol ar TG i'w ddarparu a'i gefnogi. Mynegwyd pryder rhwng y rhyngwyneb allanol o'r tu allan i BIPBC a darpariaeth gwasanaeth a darpariaeth TG yn BIPBC ac a yw gwiriadau digonol yn cael eu cynnal i gyfleuster felly gael ei ddarparu.</p> <p>Atebodd SG y byddai ei sylwadau'n cael eu dwyn i ystyriaeth. Mae gwasanaeth dieteteg a byddai'n ymgysylltu â chartrefi gofal.</p> <p>Nododd SG yr amserlen eto – cynhaliwyd y trafodaethau cyntaf yn ystod wythnos 1af Mawrth, felly mae'n bosib' mai dyna pam y bu diffyg trafod, ac ymddiheurodd am y diffyg ymgysylltu a chyfathrebu. Ynglŷn â'r sylwadau am y Gorllewin, penderfynwyd parhau y tu allan i'r cyfarfod cyn cyflwyno ym mis Mai.</p> <p>Argymhellwyd, gan fod nifer wedi mynegi eu pryder am ddiffyg ymgysylltu, y byddai CR yn trafod â SG, CN a NMCK ac yn rhoi rhywbeth ar waith gyda phob ALL i ailedrych ar gynigion. Ar ôl hynny, e-bost gyda'r cynnig terfynol i gytuno arno i'w gymeradwyo cyn 3 Mai.</p> <p>Roedd pawb yn gytûn mai dyna oedd y ffordd orau o symud ymlaen ar hyn o bryd.</p>	<p>CR i gyfarfod â SG, CN a NMCK</p> <p>CR i e-bostio'r cynnig terfynol i gytuno arno</p>
4.	<p>Diweddariad BPRhGC</p> <p>Soniodd CR wrth yr aelodau am ganlyniadau trafodaethau sydd wedi'u cynnal yn y BPRh dros y misoedd diwethaf a phenodiad yr Is-gadeirydd. Cytunwyd ar gael dau Is-gadeirydd ym mis Chwefror - byddai un yn cael ei ohirio tan fis Medi, sef cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd. Yn dilyn pleidlais am 2il Is-gadeirydd (<i>Sector anstatudol</i>), mae Estelle Hitchins wedi'i phenodi. EH ddim yn bresennol heddiw, ond bydd yn cychwyn yn ei rôl ym mis Ebrill 2023.</p> <p>Fe wnaeth y Cadeirydd longyfarch EH ar ei henwebiad fel Is-gadeirydd gan nodi ei fod yn edrych ymlaen i weithio gydag EH.</p>	

	<p>Mae enw'r BPRh a'r Datganiad o Ddiben wedi'u trafod am sawl mis. Ar ôl pleidlais, yr enw a ffefrir fyddai Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'r Datganiad o Ddiben a ffefrir yw: Cydweithio i Sicrhau Iechyd a Lles Pobl o Bob Oed yng Ngogledd Cymru. CR yn gofyn i'r Bwrdd gytuno newidiadau i'r ddau newid hwnnw ar ôl pleidleisio.</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd eto ei fod yn falch iawn o'r Datganiad o Ddiben gan ei fod yn cwmpasu pam mae'r Bwrdd a'i aelodau'n bodoli.</p> <p>Rhoddodd CR ddiweddariad a chyflwynodd y papur ar seddi i gynrychiolwyr Gofalwyr ar y BPRh. Ar hyn o bryd, mae dwy sedd i ofalwyr a dros y blynyddoedd mae wedi bod yn her recriwtio a/neu ddal gafael ar gynrychiolwyr gofalwyr. Mae CR yn cynnig newid y meini prawf i'w gwneud yn haws i ofalwyr a gobeithio galluogi mwy o ofalwyr i gamu ymlaen. Cynigiodd CR newid y meini prawf fel a ganlyn:</p> <p>“Yn ofalwyr ar hyn o bryd sy'n cefnogi unigolion mewn cyswllt â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a ddarperir yng Ngogledd Cymru neu wedi bod yn ofalwr yn y 3 blynedd ddiwethaf.</p> <p>“Yn Ofalwr ar hyn o bryd sy'n cefnogi unigolion mewn cyswllt â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a ddarperir yng Ngogledd Cymru neu wedi bod yn Ofalwr yn y 3 blynedd ddiwethaf.”</p> <p>Cynigir hefyd bod modd rhannu'r rôl rhwng 2 unigolyn i rannu un sedd – felly gallai olygu bod y BPRh yn cael cyfraniad 4 o gynrychiolwyr i ofalwyr ar gyfer y cyfarfodydd, ond na fyddai ganddynt ond 2 sedd a 2 bleidlais.</p> <p>Awgrymodd MW fod angen i ni newid deunydd hysbysebu i adlewyrchu'r newidiadau ynghyd â nodi nad oedd cynrychiolydd gofalwyr yn y gorffennol yn gallu ailymgeisio am dair blynedd. Deallai MW pam ei fod wedi'i gyflwyno i ddechrau, gyda'r posibilid o eiriad newydd, efallai y byddai'n briodol dileu'r rheol am ailymgeisio a allai ganiatáu i unigolion fod yn 'fentor' os ydynt wedi bod ar y Bwrdd yn y gorffennol.</p> <p>Yn dilyn sylwadau ac awgrymiadau MW, derbyniwyd y Cynnig.</p>	
5.	<p>Ymhellach Ynghynt – gofynion LIC</p> <p>Rhoddodd CR gyflwyniad a diweddariad i'r Bwrdd ar Ymhellach Ynghynt, a'i nod o ddarparu gwasanaeth gofal cymunedol integredig i Gymru.</p> <p>Y neges allweddol o Ymhellach Ynghynt yw nad yw LIC yn bwriadu creu sefydliad na gwasanaeth newydd, ond adeiladu ar yr hyn sydd wedi'i sefydlu. Bydd yn canolbwyntio ar rannu dysgu ac arferion da ar draws y rhanbarthau a Chymru, ynghyd â chyflymu datblygiadau cyfathrebu ar gynlluniau cyfredol yn y rhanbarth.</p> <p>Disgrifiodd CR gysyniad Ymhellach Ynghynt gan egluro bod Ymhellach yn golygu disgrifio a sefydlu model gofal cymunedol cynhwysfawr ar hyd a lled Cymru. Mae Ymhellach hefyd yn golygu creu ymyraethau newydd er mwyn i bobl allu cynnal perthnasoedd a pharhau i gyfrannu yn eu cymuned leol wrth iddynt heneiddio. Drwy adeiladu a chryfhau eu cefnogaeth gymunedol, byddai hyn yn atal gorfod cael cefnogaeth statudol/anstatudol ar rai achlysuron.</p> <p>Mae'r elfen 'Ynghynt' yn canolbwyntio ar ddarpariaeth bresennol a datblygu cyflymach a gweithredu/ehangu ar draws y rhanbarth. Bydd hefyd yn golygu system llawer mwy effeithiol o ddysgu i weithredu'r arferion gorau.</p>	

Dywedodd CR fod chwarter 1af 2023 wedi'i dreulio'n ymgysylltu â phartneriaid ar draws y rhanbarthau yn egluro'r weledigaeth a'r cysyniad a sut y byddai'n cael ei gyflawni. Mae LIC bellach ar Gam 2 lle maent yn ymchwilio i sut y bydd Ymhellach Ynghynt yn edrych a pha gynlluniau mae angen eu cynnwys ynddo. Gweithio drwy amcanion tymor byr / canolig / hir y cynnig.

Crybwyllwyd y bydd diweddariad ffurfiol yn cael ei roi dros yr wythnosau nesaf a fyddai'n caniatáu cychwyn mapio'r broses a fydd yn dweud beth sydd i'w ddisgwyl gennym ni. Fodd bynnag, gan ein bod yn gweithio ar amserlen dynn, rydym eto i weld yn union beth sydd ei angen gennym ni.

Soniodd CR ein bod yn disgwyl i LIC gyflwyno i'r BPRh ynglŷn â'r meysydd yn y cynllun y byddant yn disgwyl inni weithio arnynt yng Ngogledd Cymru – mae'r AHP yn gynllun allweddol a fydd yn dod dan Ymhellach Ynghynt. Negeseuon eraill ynghlwm ag Aseswyr Dibynadwy, er enghraifft, ond mae'r cyfan yn dibynnu ar weld beth yn union mae LIC yn ei ddisgwyl gennym; ynghyd â manylion am weithlu'r gwasanaeth i gefnogi.

Ar ôl eu derbyn, mae CR yn credu bod angen i ni asesu'r manylion a phenderfynu beth rydym eisiau ei wneud a'i weithredu ar draws y Rhanbarth.

Ystyriaeth allweddol arall yw'r hyn sydd gennym ar waith eisoes – er enghraifft, gallai Caerdydd a'r Fro fod â chynllun ar waith sydd ar raglen waith Ymhellach Ynghynt, a ninnau heb. Gallai'r gwrthwyneb fod yn wir hefyd. Efallai y byddwn ni eisoes yn bodloni'r gofynion ar gyfer 30% o gynlluniau felly mae angen ystyried y cynlluniau eraill a gweld beth mae angen i ni ei wneud. Nid yw'n anwybyddu'r hyn sydd eisoes ar waith. Mae angen i ni ystyried ac adeiladu ar hynny a phenderfyni beth yw'r blaenoriaethau i Ogledd Cymru.

Eto, mae angen i ni edrych ar ein hadnoddau ein hunain, boed y rheiny'n ariannol neu'n bobl, ac ystyried pwysau recriwtio – beth allwn ni a beth na allwn ni recriwtio iddynt – i weld beth sy'n ymarferol i'r gyflawni ar gyfer Ymhellach Ynghynt.

I baratoi, mae gwaith mapio wedi'i wneud o waith presennol a wnaed dan raglenni cenedlaethol eraill fel y Rhaglen Gofal Sylfaenol Strategol, y Rhaglen Gofal Brys ac Argyfwng, a'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol/BPRh a bydd yn dechrau cefnogi capasiti cymunedol.

Y syniad yw dod â'r cyfan ynghyd i roi darlun llawn o'r hyn sy'n cael ei wneud, a phan ddaw cynnig LIC i law, byddwn yn gallu cynnal yr asesiad ar le mae'r bylchau o'r hyn mae LIC yn ei ddisgwyl o gymharu â'r hyn sydd eisoes ar waith. Bydd hyn hefyd yn helpu â rhannu'r hyn sy'n cael ei ddysgu - deall beth sy'n cael ei wneud yn y Gorllewin a allai gael ei addasu neu ei ehangu i'r Dwyrain neu ar draws y Rhanbarth, er enghraifft.

Ar ôl cwblhau'r asesiad, ystyried beth ddylai ein blaenoriaethau ni fod yng Ngogledd Cymru a beth mae modd ei gyflawni'n ymarferol, a meddwl am amserlenni. Mae CR yn awgrymu i ni ddod yn ôl at y BPRh ac arwain yr aelodau drwy'r cynnig llawn hwnnw.

Mae'n ymddangos yn amhendant, o ystyried y terfynau amser, ond mae CR yn credu na allwn wneud mwy ynghlwm ag Ymhellach Ynghynt heb weld cynnig LIC.

	<p>Felly, dylai'r holl waith sydd ar fynd ar hyn o bryd ynghlwm â chynyddu capasiti cymunedol barhau boed hynny dan raglen genedlaethol neu benderfyniad lleol.</p> <p>Dywedodd FR fod cyflwyniad CR yn gryno ac wedi'i egluro'n dda. Rhannau FR bryderon CR ac yn anffodus nid oedd yn meddwl bod yr enw'n adlewyrchu'r gwaith da sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd. Mynegodd FR bryderon ynglŷn â phrosiectau ac ati a ariannwyd gan y Gronfa Integreiddio Ranbarthol, beth fyddai'n digwydd yn y dyfodol, ac o bosib' gormod o bwysau ar brosiect newydd, ond fel y nododd CR, mae'r prosiectau cyfredol yn llwyddiannus, ond yn dibynnu ar gael cyllid i sicrhau eu dyfodol. Angen i Ogledd Cymru fel rhanbarth fod yn gryf yn ein penderfyniad ein bod ni eisiau rheoli yn hytrach na LIC yn disgwyl inni wneud hynny.</p> <p>Diolchodd TO i CR am y cyflwyniad a'r pwyntiau dilys ar adeiladu ar yr asedau yng Ngogledd Cymru a dywedodd bod y gwaith mapio'n ffordd ddoeth o fynd ati ac roedd yn sylweddoli'r heriau a fu i wneud y gwaith.</p> <p>Holodd TO ynglŷn ag ystyr 'Cryfach' yn yr enw 'Ymlaen, Ynghynt, yn Gryfach' – dywedodd CR mai fersiwn gynharach o'r cynnig oedd FFS ac roedd wedi newid ers hynny i Ymhellach Ynghynt.</p> <p>Holodd MW ynglŷn â chreu rhwydwaith o ofal cymunedol ar draws Gogledd Cymru'n darparu gofal iechyd a chymdeithasol a chefnogaeth a'r 3ydd sector yn gweithio gyda'r sector statudol ond heb sôn am ddarparwyr oedd ddim yn y 3ydd sector na'r sector gwirfoddol. Gan fod y rhan fwyaf helaeth o ddarpariaeth mewn cartrefi gofal / darpariaeth gofal yn y cartref yn y sector preifat yng Ngogledd Cymru a Chymru gyfan, mae gan y darparwyr hynny gyfraniad i'w wneud a bod yn rhan o'r agenda hon. Siomedig nad oeddent wedi'u cynnwys. Atebodd CR gan ddweud bod sleidiau cyntaf ei chyflwyniad yn rhagarweiniad i Ymhellach Ynghynt yn uniongyrchol gan LIC, felly defnyddiodd CR eu geiriad nhw, ond ar y pwynt diwethaf, gallwn barhau i weithio fel rydym yn gweithio ac, wrth gwrs, mae partneriaid yn y sector preifat yn hollbwysig. Ymddiheurodd CR gan y dylai fod wedi'i grybwyll, ond gweithio gyda'n holl bartneriaid ar draws Gogledd Cymru.</p> <p>Awgrymodd AW greu cysylltiad â chyfarfodydd Creu Cymru Iachach. Mae'r eirfa yn y cyflwyniad yn cyd-fynd â'r rhaglen. A oes posibilrwydd o gydweithio/cysylltiad uniongyrchol rhwng gwaith a wnaed yn hynny o beth a'r cynnig?</p> <p>Diolchodd RS i CR fod y cyflwyniad bellach wedi datblygu o'r ddogfen a rannwyd yn gynharach eleni. O ran manylion gwasanaeth, cododd grwpiau cynllunio cyd-glystyrau fel rhai â rhan allweddol o fewn Ymhellach Ynghynt ac yn debyg i'r cyflwyniad ar AHP, mae'r cysylltiadau â'r cyd-glystyrau'n dod yn fwyfwy pwysig.</p> <p>Cytunodd y BPRh i barhau â'r gwaith a pheidio â disgwyl i LIC bennu pa ffordd rydym ni'n symud ymlaen. Diolchodd y Cadeirydd i CR a'r Tîm am y dasg enfawr o sicrhau ei fod yn gywir ac roedd yn falch ein bod ar y droed flaen ac mae gwaith mapio'n hollbwysig i'w lwyddiant. Bydd Ymhellach Ynghynt yn parhau fel eitem reolaidd ar Raglen y BPRh.</p>	
6	<p>Adroddiad Cynnydd Cod Awtistiaeth</p> <p>Rhoddodd CR ddiweddariad i'r BPRh ar weithredu Cod Ymarfer Awtistiaeth gan amlinellu'r camau nesaf.</p>	

Datblygwyd y Cod mewn ymateb i adborth gan rai oedd yn byw ag Awtistiaeth, eu teuluoedd, gofalywyr, ac ati, yn chwilio am eglurder ynglŷn â pha wasanaethau y dylent ddisgwyl gallu eu cael ar hyd a lled Cymru. Mae hefyd yn cyfeirio at y fframweithiau cyfreithiol sydd eisoes ar waith ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff perthnasol weithio yn unol â'r Cod hwnnw wrth drefnu neu ddarparu gwasanaethau i bobl Awtistig.

Mae Atodiad 1 yn yr adroddiad yn cynnwys rhestr lawn o 40 o safonau sy'n parhau o fewn y Cod Ymarfer.

Yng Ngogledd Cymru, cyhoeddwyd yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ym mis Ebrill 2022, ac roedd gwybodaeth ynddo am bobl Awtistig yn dangos i ni bod 6,160 o bobl dros 18 oed yn byw ag Awtistiaeth. Yr adborth a gafwyd oedd bod angen i wasanaethau ganolbwyntio mwy ar yr unigolyn, angen i staff gael mwy o hyfforddiant arbenigol a bod angen gostwng amseroedd aros am asesiad. O ran plant a phobl ifanc, daeth yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth o hyd i fylchau mewn gwasanaeth yn cynnwys rhai i blant ar ben uchaf y sbectrwm; gofal seibiant i blant dros 11 oed; cyfleusterau ar ôl ysgol gyda staff wedi'u hyfforddi'n benodol a gwasanaethau i blant Awtistig oedd a heriau gorbryder a chyfathrebu.

Mae'r Tîm Rhanbarthol yn rhoi cefnogaeth ar weithredu'r Cod a'u rôl yw darparu cefnogaeth i Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd i ddod ag asesiad cynhwysfawr ynghyd i ddeall sefyllfa partneriaid ar hyn o bryd. Bydd yn adolygu i ba raddau mae dyletswyddau dan y Cod Ymarfer yn cael eu cyflawni ledled Gogledd Cymru, ac os oes angen, gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu unrhyw argymhellion i wella. Gweithio gyda phartneriaid i ymchwilio i ac edrych eto ar unrhyw fylchau data yng Ngogledd Cymru. Adeiladu ar a chynorthwyo i rannu arferion da yn ein Rhanbarth.

Roedd gwaith gwerthuso cenedlaethol oedd ar y gweill wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. Mae 'People and Work' wedi'u comisiynu i gynnal gwerthusiad llawn o'r Cod Ymarfer a gychwynnodd ym mis Ionawr 2023 a bydd ar fynd tan fis Mawrth 2025 gan ei fod mewn dau gam.

Heriau presennol i weithredu'r Cod Ymarfer, sydd ddim yn rhai penodol i Ogledd Cymru yn dilyn adborth gan LIC, yw bod y Codau'n amwys ac yn cael eu gweithredu'n wahanol o ran sut mae cydymffurfiaeth yn edrych gan fod pob partner yn gallu eu dehongli'n wahanol. Roedd LIC yn gobeithio y byddai'r gwaith gwerthuso'n cynnig eglurder neu argymhellion bod angen canllawiau manwl i ategu rhai o'r Codau.

O fewn y Cod Ymarfer, mae angen Cefnogwr Awtistiaeth ar gyfer Gogledd Cymru. Y Cyng. Christine Jones ymgymrodd â'r rôl hon yn flaenorol ond mae bellach wedi rhoi'r gorau iddi oherwydd pwysau gwaith. Diolchodd CR i CJ am y gwaith gwych yn dylanwadu ar waith awtistiaeth ledled Gogledd Cymru. Mae angen i'r Cefnogwr fod yn aelod o'r BPRh. Cynigiodd CR gysylltu â'r holl aelodau am wirfoddolwyr ar gyfer y rôl Cefnogwr Awtistiaeth. Dywedodd CR y byddai pecyn cefnogi ar gael i egluro'r gofynion, sut i gyflawni'r rôl, ac ati.

Cododd CR y pwynt bod y Cod Ymarfer yn gofyn bod gennym ni Fwrdd neu grŵp Gogledd Cymru i oruchwylio sut mae'r gwaith yn cael ei gyflwyno. Ar hyn o bryd, mae grŵp llywio'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn cyflawni'r elfen Oedolion ac Is-grŵp Plant y BPRh yn cyflawni elfennau plant a phobl ifanc. Darn o waith i'w wneud i adolygu'r trefniadau presennol yn ymchwilio a ydynt yn ddigonol i fodloni gofynion y Cod Ymarfer. Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu ar hyn o bryd ar wahân i ddatgan bod y BPRh yn fodlon bod y trefniadau presennol yn gadarn i fodloni'r Cod Ymarfer.

	<p>Dyweddodd CJ ei bod wedi'i phenodi'n Ddirprwy Arweinydd ac felly wedi gorfod rhoi'r gorau i'r rôl. Roedd yr ymrwymiad / hyfforddiant / presenoldeb mewn cynadleddau'n fwy na'r disgwyl. Drwy eistedd ar grŵp IAS, addysgwyd CJ am yr holl waith oedd yn cael ei wneud yn ein cymunedau ac awgrymodd y byddai'n fantais i Aelod fod â gwybodaeth am Awtistiaeth. Diolchodd y Cadeirydd i CJ am ei gwaith caled.</p> <p>Dyweddodd AJ fod y gwaith yn hollbwysig, ond roedd yn pryderu ynglŷn â chydabod diagnosis; cefnogaeth ac asesu ynghyd â gwasanaethau cefnogaeth - a allem ni ystyried sefydlu rhwydweithiau ar gyfer pobl ag Awtistiaeth, eu gofalwyr, eu teuluoedd, ac ati, gydag eraill sy'n byw gydag Awtistiaeth, gofalwyr ac ati. Gan ein bod yn edrych ar gryfhau diagnosis a chefnogaeth yn gynharach, a fyddai hyn yn agor y drysau i eraill - mae angen i ni sicrhau y gallwn wneud hynny, ynghyd â gweithredu cefnogaeth i bawb, o bosib' drwy'r trydydd sector? Efallai nad gwasanaethau cefnogi yw'r llwybr cywir ar rai achlysuron - efallai mai rhywun i wrando a chynnig cefnogaeth anffurfiol sydd ei angen. Mae angen i ni ystyried hyn yn fuan wrth ddatblygu rhwydweithiau cefnogaeth.</p> <p>Diolchodd NA i CJ am ei chyfraniad fel Cefnogwr Awtistiaeth. Atgoffodd NA y Bwrdd am awgrym a wnaed yn y gorffennol o rannu'r rôl, o bosib, rhwng y Dwyrain / Canol / Gorllewin. Efallai mai dyma'r ffordd ymlaen i'w gwneud yn fwy deniadol gan ei bod yn rôl heriol. Cytunai NA â sylwadau AJ a rhai CR fod angen ffordd ymarferol ymlaen.</p> <p>Nododd MW-J fod angen i ni dderbyn yr her gan nad oes unrhyw drefniadau cadarn a digonol i blant a phobl ifanc sy'n byw ag Awtistiaeth ac mae angen i ni edrych eto ar yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ynghyd â'r Adroddiad diweddar gan y Comisiynydd Plant ynglŷn â niwroamrywiaeth a pheidio â cholli ffocws fel Rhanbarth. Gyda'r holl wybodaeth sydd gennym, gallai Is-grŵp Plant y BPRh fynd at i wneud darn o waith, a nodyn atgoffa bod yr oedran pontio'n hollbwysig, nid yn unig o safbwynt gwasanaethau ond o ran pa gefnogaeth sydd ar gael.</p> <p>Nododd CR y pwyntiau dilys a godwyd a bydd yn eu cyflwyno fel adborth ac yn edrych ar rôl y Cefnogwr Awtistiaeth ac a yw'r disgwyliadau'n realistig. Bydd y pwyntiau ynghlwm â pheidio â cholli ffocws ar blant a'r gefnogaeth sydd ar gael yn cael eu rhoi'n adborth i'r Tîm eu nodi.</p>	
7	<p>Diweddariad Fedra'i</p> <p>Rhoddodd CW-E gyflwyniad i'r Bwrdd. Mae rhaglen Fedra'i yn ystod o wasanaethau sydd wedi datblygu'n organig dros nifer o flynyddoedd i ddiwallu nifer o heriau iechyd meddwl.</p> <p>Nod Fedra'i oedd lleihau derbyniadau aciwt ynghlwm ag ymyrraeth gynnar ac atal; cefnogaeth darpariaeth gymunedol ar gyfer gwell hunanreolaeth; gwella rheolaeth a brysbennu atgyfeiriedig; ymyrraethau o fewn Unedau Achosion Brys; gwella effeithlonrwydd yn y gwasanaeth cleifion mewnol a chymunedol a lleihau arhosiad cyfartalog mewn gwasanaethau cleifion mewnol.</p> <p>Roedd y ddarpariaeth yn seiliedig ar bedwar cynllun allweddol fel a ganlyn: Daeth Gofal Anhrefnedig Fedra'i i ben yn 2020 oherwydd y pandemig. Roedd yn darparu cefnogaeth anghlinigol i gleifion oedd â heriau cymdeithasol ac iechyd meddwl lefel isel. Fe wnaeth y gwasanaeth recriwtio dros 200 o wirfoddolwyr a</p>	

darparu 500 o ymyraethau. Casglodd proses yr Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad ganlyniad o £4.24 am bob £1 a wariwyd.

Canolbwynt Cymunedol Fedra'i a Chysylltwyr Cymunedol: 8 canolbwynt ar hyn o bryd yn darparu ystod o ymyraethau cynnar ac ymyraethau atal i gefnogi pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl lefel isel i hunanreoli eu cyflyrau mewn lle cymunedol. Mae pob canolbwynt yn cael eu cynnal gan sefydliad trydydd sector wedi'u comisiynu gan BIPBC.

Maent wedi'u hariannu ar y cyd drwy'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol a chyllid craidd BIPBC.

Sefydlwyd gwasanaeth Gofal Sylfaenol Fedra'i yn 2022 i ymateb i'r cynnydd sydyn disgwylidig mewn galw o ganlyniad i atgyfeiriadau iechyd meddwl ac i fynd i'r afael â nifer yr atgyfeiriadau amhriodol i'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, wedi'i ariannu gan LIC.

Roedd Fedra'i Weithio yn darparu cefnogaeth ddwys, arbenigol yn canolbwyntio ar yr unigolyn i helpu pobl ag anghenion iechyd meddwl gael swydd a'i chadw.

Roedd yn cael ei harwain gan BIPBC mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru, a'i darparu yn y chwe sir yng Ngogledd Cymru gan ddarparwyr trydydd Sector Adferiad ac RCS. Daeth y gwasanaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 ar ôl i'r Adran Gwaith a Phensiynau ddod â'r cyllid i ben. Mae adroddiad ar y cam cyntaf ar gael ac mae'r adroddiad nesaf ar gam 2 i ddod ym mis Gorffennaf 2023.

Rhannodd CW-E gipolwg ar ddata ar draws y Canolbwyntiau – cefnogwyd 1272 o bobl yn y Canolbwyntiau Fedra'i ym mis Chwefror 2023, cynnydd o 11% o gymharu ag Ionawr.

Darparwyr 2516 o ymyraethau yn y Canolbwyntiau Fedra'i ym mis Chwefror 2023, cynnydd o 6% ers mis Ionawr.

Roedd hunan-atgyfeiriadau wedi gostwng ers Ebrill 2022.

Roedd atgyfeiriadau gan feddygon teulu a thimau iechyd meddwl wedi sefydlogi ers Ebrill 2022.

O edrych i'r dyfodol, roedd CW-E a JJ yn cyfarfod â'r Canolbwyntiau Fedra'i a chysylltwyr i ddeall y gwasanaeth ynghyd â Gofal Sylfaenol Fedra'i i ddysgu am ei effaith. Gweithio gyda darparwyr i ddeall unrhyw fylchau mewn darpariaeth ddata, yn benodol o ran darparu tystiolaeth am ganlyniadau a buddion.

Partneriaid y BPRh i gadarnhau a dynodi gofynion adrodd, ynghyd â chynllunio'n fwy hirdymor mewn perthynas ag ariannu'r gwasanaethau yn y dyfodol i'w gwneud yn gynaliadwy ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru.

Dywedodd ST fod GISDA wedi bod ynghlwm â Fedra'i yng Ngwynedd ers y cychwyn, a gan siarad ar ran y sector cyfan ledled Gogledd Cymru, mae pawb yn pryderu nad oes contractau'n cael eu derbyn ac yn pryderu am y wybodaeth gamarweiniol am ragor o gyllid i'r canolbwyntiau. Mae'n peri pryder i sefydliadau ac unigolion fel ei gilydd.

Roedd ail bwynt yn ymwneud â phwy all Fedra'i eu cefnogi, fel gwasanaeth gwerthfawr sydd wedi datblygu'n gyflym, ac un arloesol i'r Bwrdd Iechyd roi cynnig arno, ac mae bellach angen adeiladu arno. Mae newid mewn atgyfeiriadau sy'n dod gan feddygon teulu yn fwy nag y mae modd ei reoli gyda'r Tîm. Soniodd ST y gallai fod fwlch yn y rhai sydd angen mynediad i wasanaethau Haen 2. Un awgrym fyddai i staff sy'n cael eu cyflogi gan Fedra'i, boed y rheiny'n weithwyr cefnogi neu allweddol, heb gefndir meddygol neu glinigol, gael hyfforddiant digonol sydd ei angen i ymgymryd â'r rôl heb ddisodli problemau o fewn gwasanaethau iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru; ond eu hategu a bod yn ataliol.

	<p>Dyweddodd CW-E bod cyfarfod yn cael ei gynnal gyda GISDA ar 17/4 yn rhoi gwybod am estyniad 12 mis ar gontractau.</p> <p>Mewn ymateb i bwynt ST ynglŷn ag atgyfeiriadau'n uwch nag mae canolbwyntiau wedi'u hyfforddi i'w cefnogi, dywedodd CW-E fod hwn yn fater cyffredin mewn sgysiau ar hyn o bryd â chanolbwyntiau. Cymryd yr holl sylwadau gan bartneriaid mewn cyfarfodydd a datblygu cofnod o broblemau/pryderon i geisio eu lliniaru.</p> <p>Ychwanegodd TO fod gwaith da'n cael ei wneud gan y Tîm a chytunodd gyda sylw ST, fod angen adeiladu ac adolygu'r fframwaith sy'n bodoli eisoes. Mae natur y bobl sydd angen mwy o gefnogaeth â'u hanghenion yn rhywbeth i'w ystyried yn y dyfodol. Soniodd TO eto am wasanaeth 111 Pwyswch 2 a gychwynnodd yn Chwefror 2023 fel peilot ac sydd bellach yn gwbl weithredol bob awr o bob dydd – gellid ystyried sut y byddai'n cyd-fynd â Fedra'i a bydd adroddiad diweddarau'n cael ei gyflwyno i'r BPRh ar ôl cael data a gwybodaeth am niferoedd a mathau o atgyfeiriadau ac ati.</p> <p>Gwnaeth AR sylw am y pryder gan y Senedd ynglŷn â pha mor hawdd mae plant a phobl ifanc yn pontio o un gwasanaeth i'r llall, ac yn fwy felly i'r gwasanaeth i oedolion a mynegwyd pryderon nad yw'r broses bontio'n hawdd - unrhyw dystiolaeth ar gael yng Ngogledd Cymru i'r diben hwn.</p> <p>Atebodd CW-E drwy ddweud nad oedd ond y byddai'n gweithredu ar hyn ac yn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael ag o.</p> <p>Ychwanegodd TO fod y maes pontio'n gallu bod yn heriol i blant/pobl ifanc/teuluoedd ac weithiau i staff. Roedd gwaith wedi'i wneud ledled Gogledd Cymru dros y 2 flynedd ddiwethaf trwy gyfarfod rhwng Timau Oedolion a Phlant i drafod y llwybr gofal, ond mae llawer mwy y gellid ei wneud yn y dyfodol yn edrych ar y safbwyntiau academiaidd, ymchwil, ac ati.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i CW-E am y cyflwyniad.</p>	
8	<p>Diweddariad BIPBC</p> <p>Dyweddodd TO fod Gill Harris wedi ymddiheuro ac yn y BPRh diwethaf, newydd fynd i mewn i Fesurau Arbennig oedd BIPBC. Mae'r gwaith bellach yn mynd ar garlam a chyflwynwyd diweddariad yn rhan gyhoeddus cyfarfod y Bwrdd Iechyd – mae'r Cadeirydd newydd wedi bod yn ei swydd am beth amser a chyfarfuwyd â thri aelod annibynnol newydd yn ystod cyfarfod y Bwrdd. Rhoddwyd cyflwyniad gan Olivia Shorrocks a Jeremy Griffiths, dau aelod o LIC sy'n gweithio'n galed gyda BIPBC i ddatblygu'r gwaith.</p> <p>8 maes o fesurau arbennig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llywodraethu ac effeithiolrwydd y Bwrdd – wedi'i arwain gan Brif Weithredwr BIPBC ynghyd ag aelodau annibynnol yn cynorthwyo â'r gwaith; • Y gweithlu a datblygu sefydliadol – Cyfarwyddwr y Gweithlu i weithio ar y mater, ond mae'r swydd hon yn wag ar hyn o bryd; • Cyllid ac archwilio – Cyfarwyddwr cyllid i weithio ar y mater gyda chynrychiolaeth o LIC yn cynghori'n annibynnol; • Arweinyddiaeth a diwylliant trugarog – y Cadeirydd yn awyddus i waith gael ei wneud a'r Prif Weithredwr i ymgymryd â'r gwaith; • Llywodraethu clinigol, profiad cleifion a diogelwch – i'w ddatblygu gan Gyfarwyddwr Nyrsio; 	

	<ul style="list-style-type: none"> • Darpariaeth weithredol – disgwyl am y penderfyniad terfynol ynglŷn â phwy sy'n datblygu'r ffrwd waith; • Cynllunio a thrawsnewid gwasanaeth – Cyfarwyddwr Trawsnewid a Chynllunio ynghyd â chynrychiolaeth annibynnol; • Iechyd Meddwl – TO i weithio ar y mater a gwaith ymchwiliadol yn cael ei wneud ar hyn o bryd i benodi ymgynghorydd annibynnol i gynorthwyo. <p>Adolygiad strategol i'w gynnal ynglŷn â gwaith yr Ambiwylans Awyr yng Ngogledd Cymru. Ar hyn o bryd, mae cytundeb hedfan wedi'i lofnodi i wasanaethau barhau yng Nghaernarfon a'r Trallwng tan 2026 – canlyniad allweddol a chadarnhaol i BIPBC ac er budd pennaf holl bartneriaid y BPRh.</p> <p>Soniodd TO am yr adolygiad a gydnabuwyd gan Gymru Iachach yn 2018. Roedd LIC wedi cychwyn yr adolygiad o Swyddogaethau Comisiynau Cenedlaethol yn cydreddeg â chychwyn Gweithrediaeth y GIG. Daeth i rym ar 1 Ebrill a'i brif swyddogaethau yw sicrhau bod systemau iechyd a gofal yn addas at y diben yn y dyfodol. Cynhaliwyd yr adolygiad gan Gadeirydd Annibynnol; mae'r Cylch Gorchwyl wedi'i gytuno ac mae gwaith ar fynd yn edrych ar swyddogaethau, gwendidau, bylchau ynghyd ag ymchwilio i system fwy cadarn yn y dyfodol, ac fel partneriaid, wrth i fwy gael ei ddysgu, mae angen rhannu gydag aelodau'r BPRh.</p> <p>Nododd TO yr amseroedd aros, yn enwedig rhai Orthopedig, a gyda sylw'n cael ei roi i'r maes hwn a gyda'r mesurau arbennig ar waith, gobeithio y bydd yn gwella.</p> <p>Dywedodd TO fod y Cynghorau Iechyd Cymunedol wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2023 ac mae LLAIS – Corff Llais y Dinesydd wedi cychwyn ar hyd a lled Cymru. Roedd Bwrdd BIPBC yn ddiolchgar i Gynghorau Iechyd Cymunedol am eu cefnogaeth i alluogi llais y claf ac roedd yn edrych ymlaen at weithio gyda Llais ac adeiladu perthynas debyg i'r un â'r Cynghorau.</p> <p>Gorffennodd TO gan ddweud bod Siarter y Plant wedi cychwyn ar 26 Ebrill. Mae "Meithrin Hawliau", llyfr ryseitiau ar y Siarter Plant, yn dangos gwaith partneriaeth rhagorol ar hyd a lled Cymru gydag Iechyd, llawer o adrannau ALLau, y trydydd sector, ac yn bwysicach, dros 2000 o blant. Bydd y Comisiynydd Plant yn y lansiad.</p> <p>Holodd MW ynglŷn â ffioedd oedd yn daladwy i'r Sector Gofal – gan fod canllawiau gofal nyrsio wedi'i ariannu drwy warant gan LIC yn dweud bod ffioedd yn cael eu gosod erbyn 1 Ebrill, hyd yma nid oes unrhyw ffioedd i ariannu gofal nyrsio neu ofal iechyd parhaus. Mae darparwyr gofal ar hyn o bryd yn darparu gofal heb wybod faint o ffioedd sy'n cael eu talu. Mae pawb yn ymwybodol o'r pwysau sydd ar y sector – gosod eu cyllidebau eu hunain, gwariant, pwysau chwyddiant, cyflogau staff, sy'n elfen sylweddol. Cynnydd LIC i gael ei barchu. Dim awgrym o amserlen nac ymgysylltu. Mae wedi'i godi yn y Bwrdd Comisiynu.</p> <p>TO i roi adborth a chysylltu â MW yn uniongyrchol.</p> <p>Awgrymodd AR y byddai modd cael y Cadeirydd / cynrychiolydd LIC i ddarparu eu safbwynt nhw ar yr hyn sy'n cael ei wneud yn BIPBC mewn cyfarfod BPRh yn y dyfodol.</p> <p>TO i gyfleu sylwadau'r BPRh i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr a rhoi diweddariad pan fydd un.</p>	
9	<p>BPRhGC – Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Ddrafft 2023–24</p> <p>Dywedodd CR fod yr eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod blaenorol wedi'u croesawu ar gyfer y rhaglen waith a'u hychwanegu.</p> <p>Roedd pob cam gweithredu yn y cofnodion yn ymwneud ag eitemau oedd angen mynd ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol – felly wedi'u cwblhau.</p>	

9.	Cofnodion a chymau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf – Mawrth 2023 Pob un wedi'u cytuno ac yn gofnod cywir.	
10.	Unrhyw fater arall Er gwybodaeth: Chwefror 2023 – Cofnodion y Grŵp Arweinyddiaeth a chofnodion Is-grŵp Plant BPRhGC o Ionawr 2023 wedi'u hatodi.	
	Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Gwener 12 Mai 2023	